

5 Promotion and communication

5.1 Issues influencing usage

5.1.1

There are three aspects to influencing the quality of the rights of way network and increasing usage. These are:

- Promotion
- Information
- Feedback

5.1.2

Consideration should be given as to the best way of publicising the rights of way network and giving users confidence while using the network. The work involved in updating the definitive maps and statements will take a considerable time to complete and involves the checking of the route for correct alignment.

5.1.3

Many routes are currently included in leaflets and this method of publication will continue, especially as more paths are being identified within special schemes. These leaflets will be available at all the Council offices, tourist information offices and libraries.

5.1.4

Although many routes are currently included in such leaflets, consideration should be given to publishing the maps on the Authority's website. This would allow anyone with a computer with Internet access to view the maps from anywhere in the country/world. This would be particularly useful to people visiting the area. In addition reporting difficulties will be made easier either through a web based complaint/feedback form or through more conventional methods.

5.2 Promoted walks

5.2.1

There are many opportunities for walkers in Caerphilly Borough to explore the countryside using promoted trails. These are a mixture of circular routes and the more challenging long distance linear routes. All of the named walks and trails listed below are leafleted and are self-guided.

5 Hyrwyddo a chyfathrebu

5.1 Materion sy'n dylanwadu ar ddefnydd

5.1.1

Mae yna dair agwedd i ddylanwadu ar ansawdd y rhwydwaith hawliau tramwy a chynyddu'r defnydd a wneir ohono, sef:

- Hyrwyddo
- Gwybodaeth
- Adborth

5.1.2

Dylid ystyried y ffordd orau o roi cyhoeddusrwydd i'r rhwydwaith hawliau tramwy a meithrin hyder y defnyddwyr wrth ddefnyddio'r rhwydwaith. Bydd y gwaith o ddiweddarau'r mapiau a'r datganiadau diffiniol yn cymryd cryn amser i'w gwblhau ac yn golygu gwirio bod aliniad y llwybr yn gywir.

5.1.3

Ar hyn o bryd mae llawer o lwybrau'n cael eu cynnwys mewn taflenni a bydd y dull hwn o'u cyhoeddi'n parhau, yn enwedig wrth i fwy o lwybrau gael eu nodi mewn cynlluniau arbennig. Bydd y taflenni hyn ar gael yn holl swyddfeydd y Cyngor, yn y swyddfeydd gwybodaeth i dwristiaid ac mewn llyfrgelloedd.


5.1.4

Er bod llawer o lwybrau'n cael eu cynnwys mewn taflenni o'r fath ar hyn o bryd, dylid ystyried cyhoeddi'r mapiau ar wefan yr Awdurdod. Byddai hyn yn caniatáu i unrhyw un sydd â chyfrifiadur â chysylltiad â'r Rhyngrwyd weld y mapiau o unrhyw le yn y DU/y byd. Byddai hyn yn arbennig o ddefnyddiol i bobl sy'n ymweld â'r ardal. Hefyd bydd yn haws rhoi gwybod am anawsterau naill ai trwy ffurflen gŵyn/adborth ar y we neu drwy ddulliau mwy confensiynol.

5.2 Teithiau cerdded sy'n cael eu hyrwyddo

5.2.1

Mae yna lawer o gyfleoedd i gerddwyr ym Mwrdeistref Caerffili weld a dysgu mwy am gefn gwlad trwy ddefnyddio llwybrau sy'n cael eu hyrwyddo. Mae'r rhain yn gymysgedd o lwybrau cylchol a'r llwybrau llinellol hirbell sy'n fwy heriol. Mae taflenni ar gael i'r holl deithiau cerdded a llwybrau a restrir isod ac mae cerddwyr yn gwneud eu ffordd eu hunain.



View from part of the long distance route. Golygfa o ran o'r llwybr hirbell.

5.2.2

There are three long distance routes, the Sirhowy Valley Walk, the Raven Walk and the Rhymney Valley Ridgeway Walk. There are two promoted circular walks, the Machen Forge Trail and the Alien Invasion Trail and there are also a series of walks promoted under the title Classic Walks and also within the Sirhowy Valley Country Park. In addition, there is also a leaflet for Historical Walks around Gelligaer.

LONG DISTANCE ROUTES:

- **Sirhowy Valley Walk:** A challenging 27-mile linear way marked walk from Newport to Tredegar with spectacular views of the Sirhowy Valley.
- **Raven Walk:** A challenging 12 mile circular walk around the Ebbw and Sirhowy Valleys. There are great views across the Bristol Channel and north to Brecon Beacons.
- **Rhymney Valley Ridgeway Walk:** A walk around the Caerphilly Basin across the Rhymney Valley. The walk follows countryside paths, rural lanes, through Beech woodland and across panoramic mountaintops.

PROMOTED CIRCULAR WALKS:

One of the many spectacular views awaiting those wishing to explore the public path network.

- **Machen Forge Trail:** A 5-mile circular walk around the quiet village and countryside of Machen. Discover the hidden past through local people's reminiscences.
- **Alien Invasion Trail:** A short children's walk around Pen y Fan Pond Country Park.

CLASSIC WALKS:

- A series of 5 to 8 mile circular walks through some of the most scenic and spectacular landscapes in the county borough. These are promoted in the 'Classic Walks' leaflet pack.

SIRHOWY VALLEY COUNTRY PARK:

- There are three circular promoted walks within the country park. These are the River Walk, Woodland Walk and Twyn Oerfel Walk, which are advertised in the Sirhowy Valley country park leaflet.

(The location and route of each of the above walks can be viewed in plan overleaf).

5.2.2

Mae yna dri llwybr hirbell, sef Taith Gerdded Cwm Sirhywi, Taith Gerdded y Gigfran a Thaith Gerdded Cefnffordd Cwm Rhymni. Mae dwy daith gerdded gylchol yn cael eu hyrwyddo, sef Llwybr Gefail Machen a Llwybr Ymosodiad yr Aliwns. Hefyd mae cyfres o deithiau cerdded yn cael eu hyrwyddo o dan y teitl Teithiau Cerdded Clasurool a hefyd ym Mharc Gwledig Cwm Sirhywi. Yn ogystal mae yna daflen ar gyfer Teithiau Cerdded Hanesyddol o gwmpas Gelligaer.

LLWYBRAU HIRBELL:

- **Taith Gerdded Cwm Sirhywi:** Llwybr llinellol heriol 27 milltir o hyd gyda mynegbyst, sy'n mynd o Gasnewydd i Dredegar ac yn cynnig golygfeydd godidog dros Gwm Sirhywi.
- **Taith Gerdded y Gigfran:** Llwybr cylchol heriol 12 milltir o hyd o gwmpas Cymoedd Ebwy a Sirhywi. Mae yna olygfeydd gwych dros Fôr Hafren ac i'r gogledd at Fannau Brycheiniog.
- **Taith Gerdded Cefnffordd Cwm Rhymni:** Taith gerdded ym Masn Caerffili ar draws Cwm Rhymni. Mae'r daith gerdded yn dilyn llwybrau cefn gwlad a lonydd gwledig ac yn mynd trwy goetir ffawydd ac ar draws copaon mynyddoedd â golygfeydd i bob cyfeiriad.

TEITHIAU CERDDED CYLCHOL SY'N CAEL EU HYRWYDDO:

Un o'r lliaws o olygfeydd godidog sy'n aros i bobl sydd eisiau defnyddio'r rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus.

- **Llwybr Gefail Machen:** Taith gerdded gylchol 5 milltir o hyd o gwmpas pentref tawel a chefn gwlad Machen. Cewch ddysgu am y gorffennol cudd trwy atgofion pobl leol.
- **Llwybr Ymosodiad yr Aliwns:** Taith gerdded fer i blant o gwmpas Parc Gwledig Pwll Pen y Fan.

TEITHIAU CERDDED CLASUROL:


- Cyfres o deithiau cerdded cylchol 5 i 8 milltir o hyd trwy rai o'r golygfeydd harddaf a godidocaf yn y fwrdeistref sirol. Mae'r rhain yn cael eu hyrwyddo ym mhecyn taflenni 'Teithiau Cerdded Clasurool'.

PARC GWLEDIG CWM SIRHYWI:


- Yn y parc gwledig mae yna dair taith gerdded gylchol sy'n cael eu hyrwyddo, sef Taith Gerdded yr Afon, Taith Gerdded y Coetir a Thaith Gerdded Twyn Oerfel. Cânt eu hysbysebu yn nhaflen Parc Gwledig Cwm Sirhywi.

(Gellir gweld lleoliad a llwybr pob un o'r teithiau cerdded uchod yn y cynllun drosodd).

Walk locations in the County Borough



Teithiau cerdded CBSC sy'n cael eu hyrwyddo



Ffigur 1.